**EITEM AR YR AGENDA: 10**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**19 Medi 2011**

**DATGANIAD O GYFRIFON 2010-11**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig 2010-11 i'r Aelodau cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio i'w gymeradwyo.

2 Trwy gyflwyno'r cyfrifon i'r ddau bwyllgor, sicrheir bod pob Aelod o'r Awdurdod wedi cael cyfle i edrych ar y set ddiweddaraf o'r cyfrifon ac i roi sylwadau arnynt.

## Gwybodaeth

3 Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r cyfrifon gael eu paratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), ac mae hynny wedi golygu llawer iawn o waith. Y newid mawr yw'r modd y cyflwynir y datganiadau ariannol craidd (tudalennau 24 i 27), ac am flwyddyn gyntaf y trosi o'r Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (UK GAAP) i'r Safonau IFRS, mae'r fantolen yn dangos trafodion am dair blynedd ariannol fel cymorth i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.  Mae dadansoddiad o ardrawiad dyfodiad yr IFRS i'w gael ar dud. 6 o'r cyfrifon.

4 Hefyd yn newydd eleni, mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (tudalennau 8 i 16), a chafodd yr Aelodau gyflwyniad ar hwnnw yn y Pwyllgor Archwilio ar Fehefin 6 2011. Mae'r datganiad yn dod yn lle'r Datganiad Rheolaeth Fewnol, ac mae'n unol â'r egwyddorion sydd yn y fframwaith 'Delivering Good Governance in Local Government' a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE).

5 Yn y blynyddoedd blaenorol, byddai'r Datganiad drafft o Gyfrifon wedi cael ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod llawn ym mis Mehefin, ond oherwydd newidiadau deddfwriaethol – Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2010 – nid yw bellach yn ofyniad i gael cymeradwyaeth yr Aelodau cyn archwilio'r cyfrifon. Er hynny, mae'n parhau'n ofyniad i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 30 Medi. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo'r cyfrifon i'r Pwyllgor Archwilio.

6 Yn lle'r cyfrifon drafft, cyflwynwyd adroddiad Perfformiad Ariannol am 2010-11 i'r Aelodau, ac roedd yn nodi'r union wariant am y flwyddyn o'i gymharu â'r gyllideb, a cheiswyd cymeradwyaeth yr Aelodau i roi arian o'r tanwariant o'r neilltu mewn cronfa gyffredinol, gan adrodd mai'r tanwariant oedd £627k. Fodd bynnag, wrth ddod â'r broses i ben, adnabuwyd rhai costau y dylid bod wedi eu dyrannu i'r refeniw yn hytrach na'r cyfalaf, felly mae hyn wedi lleihau'r tanwariant i £223k.

**Newidiadau wedi Archwilio**

7 Mae'r cyfrifon bellach wedi cael eu harchwilio gan yr Archwilydd a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac maent wedi eu diwygio yn unol â chanfyddiadau'r archwiliad a'r trafodaethau a gafwyd wedyn ynglŷn â thrin y cyfrifon, diffiniadau a'r modd y cyflwynir eitemau penodol o fewn y cyfrifon.

8 Mae dadansoddiad manwl o'r camddatganiadau a welwyd yn y cyfrifon drafft ac a gywirwyd, yn rhan o'r 'Adroddiad Archwiliad o

Ddatganiadau Ariannol' a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio gyda'r cyfrifon. Rhestrir crynodeb o'r newidiadau isod.

a) Ailddosbarthu buddsoddiadau tymor hir yn arian a chyfwerth ag arian, £2,004k;
b) Ailddosbarthu'r ddarpariaeth bensiynau i gronfeydd a glustnodir, £165k.

**Cyflwyno'r Cyfrifon**

9 Cyflwynir y cyfrifon yn fanwl i'r Pwyllgor Archwilio fel y pwyllgor sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon. Bydd y cyflwyniad yn cynnwys esboniad o'r newidiadau i'r cyfrifon oherwydd trosi o'r UK GAAP i'r Safonau IFRS, ynghyd â disgrifiad o berfformiad ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn. Mae croeso i Aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio ddod i'r cyfarfod os ydynt yn dymuno rhagor o esboniad o'r fformat adrodd newydd.

**Argymhelliad**

10 Bod yr Aelodau'n nodi'r Datganiad o Gyfrifon am 2010-11, a bod unrhyw sylwadau ar y cyfrifon yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor Archwilio.